# Cardiff Bay

If you don't visit Cardiff Bay you're not doing Cardiff right! Home to Mermaid Quay and the epicentre of Welsh politics, this hub of renovation keeps on getting better and better. If you're fancying a bit more of an adventure, why not check out the stunning circular barrage walk through Penarth!

## Barrage Walk

If you continue walking around Mermaid Quay past the Norwegian church, you will find the beautiful barrage walk and cycle track. Follow this around and eventually you'll reach Penarth! The route is a circular 6.8 mile walk that takes approximately 2 hours to complete.

## Mermaid Quay

The waterfront shopping and leisure district is home to some of the most iconic Cardiff sights: Wales Millennium Centre, Roald Dahl Plas, The Norwegian Church, Senedd Cymru (Welsh Parliament) and even Ianto's Shrine for any Torchwood fans out there. There is also a range of restaurants and coffee shops to break up your day, or you could visit the cinemas or bowling alley. We promise you that you will not be short of things to do!

## Find Your Way







**Location:** Mermaid Quay, CF10 5BZ

**How to get there:** Cardiff Bay is just a 45 minute walk through Cardiff City Centre from the Students' Union building. There are also trains every 12 minutes from Cardiff Queen Street which will get you straight to the bay in no time at all.

CARDIFFSTUDENTS.COM/GIVEITAGO @GIVEITAGOCSU

# Bae Caerdydd

Os nad wyt ti wedi ymweld â Bae Caerdydd dwyt ti ddim yn gwneud Caerdydd yn iawn! Yn gartref i Gei'r Fôr-forwyn ac uwchganolbwynt gwleidyddiaeth Cymru, mae'r canolbwynt adnewyddu hwn yn parhau i fynd o nerth i nerth. Os wyt ti awydd ychydig bach mwy o antur, pam ddim mynd am dro o amgylch y morglawdd cylchog tuag at Benarth!

## Cerdded y Morglawdd

Os byddi yn parhau i gerdded o amgylch Cei'r Fôr-forwyn tu hwnt i'r capel Norwyeg, fe ddei o hyd i'r morglawdd hardd yn ogystal â lôn feics. Dilyna hwn i'r pendraw er mwyn cyrraedd Penarth! Mae'r llwybr yn daith gylchol 6.8 milltir sy'n cymryd tua 2 awr i'w chwblhau.

## Dod o hyd iddo

## Cei'r Fôr-forwyn

Mae ardal siopa a hamdden y glannau yn gartref i rai o olygfeydd mwyaf eiconig Caerdydd: Canolfan Mileniwm Cymru, Plas Roald Dahl, Yr Eglwys Norwyeg, Senedd Cymru a hyd yn oed Cysegrfa Ianto ar gyfer unrhyw un sy'n hoff o Torchwood. Mae yno hefyd amrywiaeth o fwytai a siopau coffi i dorri'r diwrnod, neu gelli ymweld â'r sinema neu fynd i bowlio. Rydyn ni'n addo na fydd prinder o bethau i ti eu gwneud!







**Lleoliad:** Cei'r Fôr-forwyn, CF10 5BZ

**Sut i gael yno:** Mae Bae Caerdydd yn 45 munud o gerdded drwy Ganol Dinas Caerdydd o adeilad Undeb y Myfyrwyr. Mae trenau bob 12 munud hefyd o Heol y Frenhines Caerdydd a fydd yn mynd a thi yn syth i'r Bae mewn dim o dro.

**CARDIFFSTUDENTS.COM/GIVEITAGO** **@GIVEITAGOCSU**

# DIY Day Trips

Give it a Go whenever you want with our range of DIY Day Trips. The perfect way to explore your local area and must-see sights around Cardiff with your household.

All trips are fun, accessible by foot, bike or on easily available public transport from the Students' Union building and ideal for those on a budget.

We've tried to include as much information as we can, including any specific guidance surrounding Covid-19 affected operations. Make sure to plan ahead where necessary to ensure you make the most of each trip.

Give it a Go!

# Dy Wibdaith Di

Rho Gynnig Arni unrhyw bryd y mynni gydag ein hamrywiaeth o wibdeithiau i ti fwynhau ar dy liwt dy hun. Y ffordd berffaith i archwilio dy ardal leol a golygfeydd hanfodol Caerdydd gyda dy gyd-letywyr.

Mae pob taith yn llawn hwyl, yn hygyrch ar droed, beic neu ar drafnidiaeth gyhoeddus sydd ar gael yn hawdd o adeilad Undeb y Myfyrwyr ac yn ddelfrydol os wyt ti'n ceisio arbed arian.

Rydyn ni wedi ceisio cynnwys cymaint o wybodaeth ag y gallwn, gan gynnwys unrhyw ganllawiau penodol yn ymwneud â Covid-19. Gwna'n siŵr dy fod yn cynllunio o flaenllaw er mwyn sicrhau dy fod yn mwynhau bob taith i'r eithaf.

Rho Gynnig Arni!